# HUGHES, WILLIAM JOHN (1891 - 1945), athro ysgol a choleg

**Enw:** William John Hughes
**Dyddiad geni:** 1891
**Dyddiad marw:** 1945
**Priod:** Laura Hughes (née Binns)
**Rhiant:** Ann Jane Hughes
**Rhiant:** John Owen Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** athro ysgol a choleg
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** Thomas Roberts

Ganwyd ger Penfforddelen, Y Groeslon, Sir Gaernarfon, 10 Medi 1891, yn fab i John Owen ac Ann Jane Hughes, ond symudodd ei rieni yn fuan ar ôl ei eni i fyw i Nantlle. Chwarelwr oedd y tad, ac yn ddiweddarach, arolygydd llechi.

Addysgwyd yn ysgol y cyngor, Nantlle. Amlygodd yn gynnar ei fod yn fachgen talentog, a chafodd yrfa eithriadol o lwyddiannus yn yr ysgol sir ym Mhen-y-groes, 1904-1908.

Ymaelododd yng ngholeg y Brifysgol ym Mangor yn 1909. Enillodd le uchel yn ei holl destunau trwy gydol ei gwrs, a cheir ei enw y naill flwyddyn ar ôl y llall yn rhestr y myfyrwyr a dderbyniodd ysgoloriaeth am ragoriaeth eu gwaith. Cymerodd radd B.A. yn 1912, gydag anrhydedd mewn Saesneg, yn yr ail ddosbarth, ac yn yr arholiad am dystysgrif y Bwrdd Addysg, gosodwyd ef yn y dosbarth cyntaf.

Ym Medi 1912 aeth am dymor i Nuremberg i'r Le Cours de Langues Institute i ddilyn cwrs mewn Ffrangeg ac Almaeneg, ac yn y dulliau o'u dysgu, a dysgai Saesneg i Almaenwyr mewn ysgolion nos.

Treuliodd chwe blynedd a hanner wedyn yn athro mewn ysgolion uwchradd. Yn gyntaf yn Lisburn, Belfast, o Ionawr 1913 hyd 1915; yna yn Ilminster, gwlad yr Haf, hyd 1916; ac yna yn Ysgol Friars, Bangor, hyd 1919.

Enillodd radd M.A. yn 1919, a chyhoeddwyd ei draethawd yn llawlyfr yn 1924, - *Wales and the Welsh in English Literature from Shakespeare to Scott*. (Hughes and Son). Cais i olrhain ac egluro agwedd awduron Seisnig tuag at Gymru a'r genedl Gymreig oedd y gyfrol. Gwnaeth ymchwil manwl i'w destun, ac y mae camp ar y ffordd glir y crynhôdd ffrwyth ei astudiaeth, ac ar y modd yr adroddodd yr hanes yn ddifyr ac yn fyw o'r dechrau i'r diwedd. Yr oedd gwerth arbennig yn y penodau ar y teithwyr a'r hynafiaethwyr. Felly hefyd, yn y ddau atodiad - gan mor ddiddorol yw'r drafodaeth ar y gyfathrach rhwng hynafiaethwyr Cymru a Lloegr yn y 18fed ganrif yn y cyntaf, a chan mor gyflawn yw llyfryddiaeth y pwnc yn yr ail.

Yn 1919, penodwyd ef y ddarlithydd ar yr iaith Saesneg a'i llenyddiaeth yn y Coleg Normal, Bangor - swydd a ddaliodd hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn r o ddiwylliant eang, a gadawodd ei ddylanwad yn drwm ar ei fyfyrwyr.

Yn 1925, priododd â Laura Binns, athrawes yn y Coleg Normal, a chawsant ddwy ferch.

Rhwng 1920 a 1930, rhoes gryn lawer o sylw i faterion addysg yng Nghymru. Ysgrifennodd erthyglau ar y pwnc i'r *Genedl*, a'r *Efrydydd* a'r *Welsh Outlook*, a chafodd wobr o £15 yn eisteddfod Genedlaethol Caergybi, 1927, am draethawd ar y testun - ' Cyfundrefn addysg cenedl y Cymry '. Bu'n athro hefyd ar ddosbarthiadau pobl mewn oed, ac am lawer blwyddyn bu'n gwasanaethu fel arholwr cynorthwyol mewn Saesneg yn arholiadau'r Bwrdd Canol Cymreig.

Yn y tri-degau, dechreuodd ymddiddori ym mywyd cyhoeddus Bangor. Gwasanaethodd ar gyngor y ddinas o 1932 hyd 1944, a bu'n gadeirydd pwyllgor y materion cyffredinol o 1939 hyd 1944. Yr oedd yn r o farn gytbwys ac o feddwl clir, a gwerthfawrogid ei arweiniad gan ei gyd-aelodau.

Nid oedd yn gryf o gorff. Torasai ei iechyd i lawr am gyfnod yn 1921, ac ym mlynyddoedd olaf yr Ail Ryfel gwaethygodd eto. Bu farw 24 Ebrill 1945, a chladdwyd ef ym mynwent Glanadda, Bangor.

## Awdur

**Thomas Roberts**, (1885 - 1960)

## Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol, a gwybodaeth gan aelodau o'i deulu

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734651

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu